# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffộn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**www.moldtowncouncil.org.uk**

**Aelodau Cyngor Tref Yr Wyddgrug**

16$^{eg}$ Ebrill 2025

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 23$^{ain}$ Ebrill, 2025** yng Nghanolfan Bryn y Beili, Ffordd Dinbych, Yr Wyddgrug. Bydd y cyfarfod ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

**CYFRANOGAETH Y CYHOEDD**
Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy’n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU’R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau’r Maer

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 26ain Mawrth 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7fed Ebrill 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill 2025 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL 2025 AC ENWEBU MAER 2025/26**

Cytuno’n ffurfiol y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn digwydd am 6pm ar Ddydd Mercher 7fed Mai 2025 yn Neuadd y Seiri Rhyddion, Yr Wyddgrug.

Ystyried enwebiad y Maer yn y Cyfarfod Blynyddol, i’w gynnal ar 7fed Mai 2025, ar gyfer Blwyddyn y Cyngor sy’n dod.

**6. GOHEBIAETH:**

**Nodi**’r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd ac **ystyried** lle bo raid pa gamau gweithredu sy’n angenrheidiol:

(i) Meiri dros Heddwch – cais am Ffi Aelodaeth (ynghlwm)
(ii) Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 2025 (ynghlwm)

**7. RHESTR WEITHREDU**

**Nodi’r** Rhestr Weithredu sydd ynghlwm.

**8. ADRODDIAD SWYDDOGION**

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol (ynghlwm).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a’r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

## 9. BASGEDI CROG

**Ystyried** yr adroddiad sydd ynghlwm.

## 10. MENTER Y CIT DŴR CLYFAR

Yn dilyn derbyn gwybodaeth (ynghlwm) a’r cyflwyniad gan PCSO Tiffany Davis. **Trafod** a fyddwn yn prynu Citiau Dŵr Clyfar.

## 11. CYNNIG A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORYDD TERESA CARBERRY

**Trafod** y Cynllun Ailgylchu: Cynnig ynglŷn ag adnewyddu lle storio (ynghlwm).

## 12. PROSIECT PARCIO YSGOLION CYNRADD

**Derbyn** diweddariad ar lafar gan y Cynghorydd Megan Lloyd Hughes (Cadeirydd Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant) ac **ystyried** y gost am gynhyrchu 4 baner ar gyfer pob Ysgol Gynradd sy’n cymryd rhan (ynghlwm).

## 13. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

**Nodi**’r adroddiad sydd ynghlwm.

## 14. CYFRIFON/TALIADAU

**Cymeradwyo’r** amserlenni sydd ynghlwm sy’n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 12, yn nodi bod taliadau’n cael eu gwneud yn unol â galluoedd cynghorau lleol.

## 15. EITHRIO’R CYHOEDD A’R WASG

**Ystyried** eithrio’r cyhoedd a’r wasg o’r cyfarfod er mwyn caniatáu trafodaeth am faterion cyfrinachol.

## 16. RHAN 2 – CASGLU GWASTRAFF

**Ystyried** y dyfynbrisiau sydd ynghlwm am Gasglu Gwastraff o Swyddfeydd newydd y Cyngor Tref.

## 17. RHAN 2 – OFFER CYFARFOD HYBRID NEWYDD

**Ystyried** y costiadau sydd ynghlwm am brynu a gosod offer newydd ar gyfer Swyddfeydd newydd y Cyngor Tref.

**NODWCH:**

Mae caniatâd i aelodau’r wasg a’r cyhoedd fynychu’r cyfarfod hwn (ond ni chânt siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a’r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

https://us02web.zoom.us/j/87027971709?pwd=z9ggAbLtdhjt3gxausVEweVEeLGboX.1

ID y Cyfarfod: 870 2797 1709
Cyfrinair: 513104